# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Spring Lilly Care**

**Uned 2, Prospect Park**
**Queensway**
**Abertawe**
**SA5 4ED**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Spring Lilly Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Spring Lilly Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Caiff y bobl eu cefnogi gydag urddas a pharch gan weithwyr gofal ymroddedig sy'n gweithio'n galed i sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu. Mae cynlluniau personol ar waith sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal i gefnogi pobl yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu anghenion gofal presennol y bobl. Mae'r bobl yn ddiolchgar am y cymorth maent yn ei gael gan Spring Lilly ac roeddent yn canmol cysondeb yr amseroedd galw a pha mor gyfarwydd yw'r tîm gofal sy'n eu cefnogi.

Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu rolau, ond gwelsom nad yw sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd i staff cymorth yn cael eu cynnal, gwnaeth yr adborth gan y staff gofal gadarnhau hyn. Soniodd y staff gofal hefyd am eu diwrnodau gwaith hir a'u bod yn aml wedi blino a gall hyn beri iddynt wneud camgymeriadau. Cadarnhaodd y rotas staffio fod y staff gofal yn gweithio diwrnodau hir iawn olynol yn rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn teimlo wedi blino a'u bod yn cael eu gorweithio. Cyn yr arolygiad hwn, daethom yn ymwybodol o sawl mater diogelu a godwyd yn sgil perfformiad y staff.

Yn dilyn yr arolygiad hwn, cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth (diffyg cydymffurfio) i'r gwasanaeth gan nad yw'n cyflawni yn unol â'i Ddatganiad o Ddiben. Mae angen i'r darparwr gymryd camau brys i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i lesiant y staff. Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol wella'i drefniadau llywodraethu a goruchwylio'n sylweddol er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn ôl y disgwyl. Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi i'r swydd sydd eisoes wedi nodi llawer o'r materion a godwyd yn yr arolygiad hwn, ond gan ei fod yn newydd i'r swydd, nid yw wedi cael digon o amser i roi unrhyw newidiadau ar waith.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan weithwyr gofal sydd am wneud eu gorau dros y bobl. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal ar gynlluniau nawdd o dramor ac roedd gan yr holl bobl y gwnaethom siarad â nhw Saesneg da ac maent yn mwynhau gweithio fel gweithwyr gofal. Roedd yr adborth gan bobl am y gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi yn gadarnhaol iawn gyda phawb yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u bod wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhan fwyaf o'r staff gofal sy'n eu cefnogi.

Ar y cyfan, mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt linellau cyfathrebu da â'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod yr amseroedd galw'n eithaf cyson, ac y caiff unrhyw broblemau eu cyfathrebu'n briodol â nhw fel rheol. Caiff cynlluniau personol eu hysgrifennu adeg yr asesiad a chaiff adolygiadau eu cynnal pan fydd angen unrhyw newidiadau. Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn cymryd rhan wrth gynllunio'u cynllun personol, ond nid oedd hyn yn gyson â'r holl bobl y gwnaethom siarad â nhw. Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwelliannau i'w prosesau adolygu ar hyn o bryd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth ar y cyfan. Caiff gweithwyr gofal eu recriwtio'n briodol gyda gwiriadau cefndir a diweddar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith cyn dechrau cyflogaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn rhaglen sefydlu wrth ddechrau cyflogaeth, sy'n cynnwys hyfforddiant diogelu. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom y polisi diogelu, y mae angen ei ddiweddaru i adlewyrchu gweithdrefnau diogelu cyfredol Cymru.

Mae angen gwelliannau sylweddol i wella llesiant y staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth, i sicrhau y gallant barhau i ddarparu gwasanaeth da i bobl a lleihau'r risg o wallau. Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau blynyddol rheolaidd ar hyn o bryd ac maent yn teimlo na allant drafod materion am eu gwaith na'u llesiant gyda'r tîm rheoli.

Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol o ran goruchwyliaeth a threfniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth. Gwnaeth ymweliadau diweddar gan dîm monitro contractau'r Awdurdod Lleol sylwi ar sawl maes pryder yn y gwasanaeth nad oeddent wedi cael eu nodi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom er bod yr un Unigolyn Cyfrifol yn gwneud ymweliadau achlysurol â'r bobl sy'n cael y gwasanaeth, nid oedd ganddo adnoddau i goladu, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn perfformio a sut i'w wella. Cwblheir adolygiadau o ansawdd gofal yn ddigonol. O ganlyniad i'r diffyg goruchwyliaeth hwn a'r diffygion llesiant staff, nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gyda chynlluniau personol sy'n rhoi manylion eu hanghenion presennol. Gwnaethom edrych ar saith ffeil gofal. Mae'r cynlluniau personol i'w gweld yn gywir wrth adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r staff yn hawdd ei deall er mwyn sicrhau y rhoddir y cymorth cywir i bobl. Mae'r rheolwr newydd wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen mewn cynlluniau personol i ddatblygu dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn sy'n sicrhau y caiff llais y bobl eu hunain ei gynnwys. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal fod y cynlluniau personol yn hawdd eu dilyn ac yn glir. Er bod cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion gofal presennol pobl, ni chaiff adolygiadau o gynlluniau personol eu cynnal bob chwarter fel sy'n ofynnol, ond mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac mae'n rhoi rhaglen ar waith i sicrhau y caiff y rhain eu cwblhau'n gyson wrth symud ymlaen.

Mae systemau digonol ar waith i helpu'r bobl â'u hiechyd a'u meddyginiaeth. Gwelsom ar y matrics hyfforddiant fod gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant meddyginiaeth a gwiriadau cymhwysedd cyn cefnogi pobl gyda meddyginiaeth. Caiff gwallau a nodir eu harchwilio a rhoddir rhagor o hyfforddiant os oes angen. Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd yng nghartrefi'r bobl wedi cael eu cwblhau'n gywir. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y rhain yn cael eu harchwilio wrth ddychwelyd i'r swyddfa. Gwelsom fod parhad gofal yn digwydd lle y bo'n bosibl ar rotas staff a chadarnhaodd llawer o'r bobl yr ymwelwyd â nhw fod ganddynt dîm gofal rheolaidd sy'n ymweld â nhw sydd wedi dod i'w hadnabod yn eithaf da. Mae'r parhad hwn yn galluogi staff gofal i nodi unrhyw waethygiad mewn iechyd yn gyflym a rhoi gwybod i'r swyddfa i gael rhagor o gymorth ac ymyriad meddygol os oes angen.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n cael y gwasanaeth. Gwelsom fod gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu fel rhan o'u proses sefydlu, ac mae rhai hefyd wedi cwblhau cwrs llawn ar ddiogelu oedolion. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r camau gweithredu y dylent eu cymryd os ydynt yn poeni am y bobl maent yn eu cefnogi a phwy i roi gwybod iddynt. Dywedodd y bobl wrthym fod eu hamseroedd galw'n gyson, a'u bod yn aml yn gweld yr un aelodau o staff yn eu cefnogi. Roeddent yn llawn canmoliaeth am y staff gofal a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu presenoldeb a bod lefel dda o ymddiriedaeth rhyngddynt. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol: "*We feel safe with the staff that come in here*", "*Yes, I feel safe. They are wonderful*", dywedodd aelod o'r teulu hefyd, "*they are respectful of X and that's all we can ask*".

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae angen gwelliannau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus a sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i'r bobl. Mae rheolwr gweladwy, newydd iawn ei benodi sy'n awyddus i wella systemau yn y gwasanaeth. Cânt eu cefnogi gan dîm swyddfa sydd â rolau a chyfrifoldebau dynodedig i gynnal y gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddyddiol. Mae system monitro galwadau electronig ar waith sy'n cael ei monitro drwy'r dydd ac eir ar drywydd rhybuddion i leihau'r risg o golli galwadau. Nid oedd adnoddau monitro sicrhau ansawdd ar waith yn yr arolygiad hwn er mwyn nodi, asesu a gwerthuso sut mae'r gwasanaeth yn perfformio a sut i ysgogi gwelliannau. Bach iawn oedd yr adborth a gafwyd gan y bobl a dogfennwyd hyn mewn ffordd gryno iawn, e.e. "*X is happy with their care*". Ni welsom unrhyw dystiolaeth o adborth gan staff. Er y gwelwyd adolygiad o ansawdd y gofal, nid oedd yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad nac yn nodi meysydd i'w gwella gan y darparwr.

Mae gweithdrefnau da ar waith i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn cael eu fetio'n addas i gyflawni eu rolau. Cawsom olwg ar saith o ffeiliau'r staff a gwelsom ddogfennau gofynnol i recriwtio'n ddiogel a gwiriadau cefndir gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae llawer o'r tîm gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae llawer yn gweithio tuag at hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm gofal lle caiff hyfforddiant ei flaenoriaethu. Mae angen gwelliannau i sicrhau y caiff llesiant staff gofal ei flaenoriaethu i leihau'r risg o wall dynol wrth ddarparu gofal i bobl. Mae rhaglen hyfforddiant ar waith i sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu rolau. Gwelsom fod y matrics hyfforddiant a'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael unedau gorfodol diweddaraf y darparwr sy'n cynnwys codi a chario, diogelwch bwyd a chymorth cyntaf. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn cadarnhau bod hyfforddiant gyda'r darparwr yn dda ac yn barhaus, roedd y sylwadau'n cynnwys: "*I feel like I've had a lot of training with them, and this is ongoing" a "they are helping me grow at the moment".* Er bod y staff yn llawn canmoliaeth am eu hyfforddiant, dywedodd y rhan fwyaf y gwnaethom siarad â nhw nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gorweithio gyda diwrnodau gweithio hir ac nid ydynt yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt yn y gwaith neu gyda'u llesiant cyffredinol. Nid oedd y ffeiliau staff yr edrychwyd arnynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu fod sesiynau goruchwylio chwarterol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal: gofyniad rheoliadol yw hwn i gefnogi staff gofal.

Mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi i'r darparwr gwasanaeth gan nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Gwelsom fethiannau wrth gefnogi llesiant y staff gofal, methu â chwblhau hysbysiadau rheoliadol, peidio â

chwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal yn foddhaol, ac ni chaiff adborth gan bobl a staff ei ddefnyddio i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae gan y methiannau hyn y potensial i gael effaith sylweddol ar bobl os nad eir i'r afael â nhw. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Nid yw'r staff yn y gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gorweithio ac nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau nac yn cael digon o oruchwyliaeth. Gwelsom hefyd sawl methiant yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn y gwasanaeth a diffyg goruchwyliaeth yn gyffredinol i gasglu gwybodaeth, dadansoddi perfformiad a rhoi gwelliannau ar waith yn y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i lesiant y staff ac y caiff gwelliannau eu gwneud wrth oruchwylio'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu i bobl yn unol â'r esboniad yn y Datganiad o | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiben. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/04/2024